## Briff Cycling UK Cymru – etholiadau'r Senedd 2026

# Mwy o ddewis trafnidiaeth a chysylltedd i bawb

Nid yw ein system drafnidiaeth gyfredol yng Nghymru'n deg ac nid yw'n cynnig dewisiadau amgen fforddiadwy, deniadol neu realistig yn lle gyrru car. Mae hyn yn gorfodi llawer o bobl yng Nghymru i fod yn berchen ar gar, sy'n gostus. Mae angen arnom ddiwygio'r system i'w wneud yn fwy diogel, yn rhatach ac yn haws i bobl ddewis teithio ar feic, ar droed ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, ac i gyfuno dulliau trafnidiaeth ar hyd y daith gyfan.

### Gofyniad maniffesto Cycling UK

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ddarparu:

- Ymrwymiad wedi'i adnewyddu i **gynyddu cyfran y teithiau a wneir trwy gerdded, olwyno, seiclo a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus**, gyda thargedau mesuradwy ac adroddiadau rheolaidd.
- **Integreiddio teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus yn well,** gan gynnwys lleoedd diogel i barcio beiciau mewn gorsafoedd, cludo beiciau ar drenau a bysiau gwledig, a chynllunio llwybrau cydgysylltiedig sy'n adlewyrchu anghenion y defnyddwyr bob dydd.

### Y cyd-destun

Mae Llwybr Newydd yn cynnwys targed allweddol o gwblhau 45% o deithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus, neu drwy gerdded neu seiclo, erbyn 2040. Mae angen gwaith cyflenwi ac ymrwymiad gwleidyddol mwy cyson i wireddu'r uchelgais hwn. Yn benodol, mae angen eglurder o ran sut y caiff ei gyflenwi gan gyrff rhanbarthol newydd.

Mae cynllun cyflenwi Llywodraeth Cymru'n nodi'n glir ei bod yn gweithio gyda chynghorau a Thrafnidiaeth Cymru i gysylltu seiclo a thrafnidiaeth gyhoeddus er mwyn hwyluso teithiau cyfan. Mae angen amlinellu mwy o gamau gweithredu e.e. gwell lleoedd parcio i feiciau mewn gorsafoedd, a sicrhau bod cynghorau'n gweithio gyda'i gilydd i greu rhwydweithiau seiclo cydgysylltiedig ar draws y wlad.

### Tystiolaeth ac effaith

- Dewis yn well: Mae sylfeini dewis trafnidiaeth ar gael eisoes – caiff cerdded, olwyno a seiclo eu cydnabod yn eang fel dulliau ymarferol o deithio bob dydd, nid dim ond at ddibenion hamdden. Mae llywodraethau a chyrff iechyd cyhoeddus yng Nghymru wedi cymeradwyo teithio llesol fel rhan allweddol o symudedd iach a chynaliadwy ers amser hir.

- Cynhwysiant cymdeithasol a thegwch: Mae system drafnidiaeth sy'n cynnig dewisiadau amgen gwirioneddol yn lle ceir yn cynnig symudedd i bobl nad ydynt yn gallu fforddio car neu nad ydynt yn berchen ar gar – gan ddatgloi mynediad i swyddi, addysg, gwasanaethau a chyfleoedd cymdeithasol.
- Cynyddu cysylltiadau: Pan fyddant wedi'u gweithredu'n dda - gyda chysylltiadau cryf, prisiau fforddiadwy a mynediad hawdd – mae systemau aml-ddull yn ei gwneud yn haws i bobl gyrraedd eu cyrchfannau'n effeithlon. Mae hybiau trafnidiaeth yn gwella cysylltedd a hygyrchedd yn sylweddol.
- Iechyd ac amgylchedd gwell: Mae lleihau dibyniaeth ar geir yn helpu i leihau llygredd aer ac yn gwella ansawdd bywyd mewn ardaloedd trefol.
- Mae llwybrau seiclo'n gweithio: Lle caiff llwybrau seiclo diogel â chysylltiadau da eu hadeiladu yng Nghymru, maent yn denu seiclwyr. Mae hyn yn dangos bod buddsoddi mewn seilwaith pwrpasol – lonydd diogel, lleoedd parcio diogel, llwybrau integredig – yn hollbwysig i newid ymddygiad teithio ar raddfa fawr.

## I gloi

Ar sail iechyd ac ar sail amgylcheddol, mae achos cryf dros gynnig gwell ddewis trafnidiaeth trwy deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus, a thrwy integreiddio'r dulliau teithio yn well. Mae hefyd yn gwneud synnwyr yn gymdeithasol ac yn economaidd. Nid rhywbeth "braf i'w gael" yw buddsoddi mewn rhwydweithiau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus cydlynol ledled Cymru. Yn hytrach mae'n **sail i system drafnidiaeth deg, iach, gynaliadwy a chynhwysol.**